



# Yn ddiogel, yn cael eich clywed, yn cael eich parchu.

Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder i Blant a Phobl Ifanc De Cymru

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner

# Nodyn gan Emma




Emma Wools ydw i, ac mae'n bleser gen i fod yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer De Cymru. Mae sawl cyfrifoldeb yn gysylltiedig â'm swydd, ond un o'r rhai pwysicaf yw sicrhau bod gwaith yr heddlu i bawb, ac mae hynny'n eich cynnwys chi.[1]

Mae sicrhau bod pob person ifanc ledled De Cymru yn cael y cyfle i ffynnu, ni waeth beth fo'i gefndir na'i brofiad, bod eich hawliau fel plant a phobl ifanc yn cael eu parchu[2], a bod eich diogelwch a'ch llesiant yn cael eu hamddiffyn yn bwysig iawn i mi.[3]

Mae'r Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyflawnder hwn i Blant a Phobl Ifanc yn agos at fy nghalon am ei fod yn sicrhau bod eich anghenion, eich syniadau a'ch blaenoriaethau chi yn ganolbwynt i'm gwaith. Dyma'r cyntaf o'i fath yn Ne Cymru ac mae wedi cael ei lywio gan yr hyn y dywedoch chi wrtha i sydd bwysicaf i chi: teimlo'n ddiogel, cael eich clywed a chael eich trin yn deg.

Gwnaethoch chi ofyn am **weithredu**, nid geiriau yn unig a dyna yw nod y cynllun hwn. Gwnaeth miloedd ohonoch gymryd yr amser i leisio eich barn. Diolch. Eich lleisiau, eich pryderon a'ch gobeithion yw sail y cynllun hwn. Rwyf hefyd am ddiolch i'r gweithwyr ieuenctid, yr ysgolion, y grwpiau cymunedol a'r gweithwyr proffesiynol gwych a helpodd i wneud hyn yn bosibl. Mae eich cymorth wedi bod yn allweddol.

**Gadewch i mi fod yn glir, nid dogfen i aros ar silff nac ar wefan sgleiniog yw hon, mae'n addewid.**

**Addewid i bob un ohonoch, i wrando ac i weithredu.**



Dywedoch wrthym yn glir: rydych am deimlo'n ddiogel, eich bod yn cael eich parchu a'ch cefnogi. Rydych am i'r heddlu, ysgolion a gwasanaethau eich deall chi a gweithio gyda chi, nid dim ond siarad amdanoch chi. Dyna pam mae hyn hefyd yn alwad i weithredu: mae angen i ni gael ymateb cydgysylltiedig i sicrhau bod eich blaenoriaethau yn troi'n newid gwirioneddol.



Mae pob un ohonom yn gwybod na all newid ddigwydd drwy un person neu un cynllun yn unig. Bydd angen i bob un ohonom gymryd rhan: yr heddlu, ysgolion, cynghorau, gwasanaethau iechyd, teuluoedd a chymunedau, yn cydweithio, i gyflawni'r hyn sydd ei eisiau a'i angen arnoch.

Dim ond y dechrau yw'r cynllun hwn. Byddwn yn parhau i wrando, dysgu a gweithio gyda chi i adeiladu cymunedau lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu a'u cynnwys.



Diolch am fod yn rhan o'r daith hon, ac yn rhan o'r newid.

**Emma Wools**

**Eich Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer De Cymru**

# Pam y lluniais i'r Cynllun hwn

**Fel eich Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, rwy'n gyfrifol am sicrhau bod Heddlu De Cymru yn gwneud ei swydd yn dda, ac rwyf hefyd yn gweithio gyda llawer o sefydliadau i leihau troseddau a chadw pobl yn ddiogel.**

Un o'm cyfrifoldebau yw llunio Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder sy'n pennu'r blaenoriaethau ar gyfer plismona yn Ne Cymru a'r ffordd o fynd i'r afael â nhw.

Rwyf wedi datblygu'r cynllun hwn yn benodol i blant a phobl ifanc, gan fy mod yn awyddus iawn i roi eich anghenion penodol chi wrth wraidd ein gwaith, gan barchu eich hawliau chi fel plant a phobl ifanc, ac amddiffyn eich diogelwch a'ch llesiant. Drwy greu'r cynllun hwn, rydym wedi gweithio i rymuso eich lleisiau fel y gallwn wrando ar eich problemau a helpu i lunio datrysiadau gyda'n gilydd.

Mae'r cynllun hwn yn nodi fy mlaenoriaethau ar gyfer pobl ifanc dros y 4 blynedd nesaf, sydd wedi'u llunio yn ôl yr hyn y dywedoch chi sydd bwysicaf i chi. Mae hefyd yn adeiladu ar waith pwysig arall a wnaed gyda phlant a phobl ifanc, fel Fframwaith Cymru Heb Drais.



**Rwy'n ymroddedig i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i chi drwy weithio gyda Heddlu De Cymru a sefydliadau pwysig eraill i helpu i gadw eich cymunedau'n ddiogel.**




**"Am fod yr heddlu i bawb, dylem allu dweud beth sy'n bwysig i ni hefyd".**

**Ymateb person ifanc i'r Harolwg yn yr hydref.**

# Sut y cafodd y cynllun hwn ei lunio

**Cynlluniwyd y cynllun hwn i adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf i blant a phobl ifanc.**

Mae wedi'i lunio gan ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu, lle gwnaeth fy Swyddfa sicrhau eich bod yn cael cymaint o gyfleoedd â phosibl i rannu eich adborth gonest a'ch profiadau personol â ni.

Mae'r cynllun hwn yn adlewyrchu lleisiau dros **5,000 o blant a phobl ifanc**, sy'n cynnwys cynrychiolaeth amrywiol o ran oed, ethnigrwydd, diwylliant, anabledd a phrofiadau bywyd. Mae'r ymgysylltu hwn hefyd yn adlewyrchu cyfraniadau gan blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad gyda'r system cyfiawnder troseddol, y system gofal, caledi ac unigedd.

Rydym wedi defnyddio'r adborth a rannwyd â ni i ddysgu o'ch profiadau, deall yr hyn sydd bwysicaf i chi a siarad â chi am yr hyn y gellid ei wneud yn well yn eich barn chi.

Mae'r wybodaeth bwysig hon wedi llywio meysydd blaenoriaeth y cynlluniau, a'r modd y byddaf yn gweithio gyda sefydliadau i greu datrysiadau sy'n ystyrlon ac yn canolbwyntio ar eich anghenion a'ch profiadau.











# Dyma sut mae plant a phobl ifanc wedi llunio'r cynllun hwn

## Arolwg ar-lein

Cwblhaodd

**540**

o blant a phobl ifanc ein harolwg ar-lein.

## Sesiynau wedi'u hwyluso

Rhannodd

**4,000+**

o blant a phobl ifanc eu hadborth fel rhan o sesiynau wedi'u hwyluso a gynhaliwyd gan leoliadau addysgol a grwpiau ieuenctid lleol.

## Digwyddiadau ymgysylltu

Rhannodd

**411**

o blant a phobl ifanc eu hadborth mewn digwyddiadau cymunedol.

## Grwpiau ffocws

Cymerodd

**28**

o blant a phobl ifanc ran mewn sesiynau grwpiau ffocws a gynhaliwyd gan dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

## Gweithdy

Cymerodd

**13**

o blant a phobl ifanc ran mewn gweithdy penodol wedi'i hwyluso gan y Comisiynydd.

## Sgwrs Lleisiau Ifanc

Siaradodd

**28**

o blant a phobl ifanc yn uniongyrchol â'r Comisiynydd ac uwch-arweinwyr fel rhan o'n Fforwm Lleisiau Ifanc sefydledig.

## Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

Lluniwyd fersiwn Iaith Arwyddion Prydain i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n Fyddar neu'n drwm eu clyw i rannu eu hadborth.

## Profi dyluniad ac iaith

Gwnaethom rannu fersiwn ddrafft o'r Cynllun â grwpiau o blant a phobl ifanc er mwyn cael eu barn ar y canlynol:

- syniadau o ran dyluniad a lliwiau
- yr iaith a ddefnyddiwyd a ph'un a oedd yn hawdd ei deall
- awgrymiadau o ran enw i'r Cynllun.

# Y 6 blaenoriaeth



## 1
Gwneud ein cymunedau'n fwy




## 2
Hyrwyddo presenoldeb cadarnhaol gan yr heddlu





## 3
Meithrin ymddiriedaeth a gwella cyfathrebu





## 4
Gwella prosesau i roi gwybod am droseddau a ffyrdd o roi adborth



## 5
Addysg, ymyrryd yn gynnar ac atal





## 6
Rhoi cymorth i blant a phobl ifanc sydd mewn sefyllfaoedd bregus

## Blaenoriaeth 1:

# Gwneud ein cymunedau'n fwy diogel

Rydych am deimlo'n ddiogel ble rydych chi'n byw, yn mynd i'r ysgol, yn gweithio, yn treulio amser ac ar-lein.


"Bydd oedolyn yn cerdded i lawr y stryd ac ond yn gweld stryd. Bydd person ifanc yn cerdded i lawr yr un stryd ac yn gweld bygythiadau, peryglon a phethau sy'n ei boeni."

"Mae'n codi ofn arna i wrth fynd allan weithiau. Rwyf bob amser yn poeni y bydda i neu fy nghi yn cael ein taro drosodd ar y palmant."

"Gofynnwch i ni ble nad ydym yn teimlo'n ddiogel, a rhowch yr heddlu yno."

"Dydw i ddim yn teimlo'n ddiogel yn cerdded ar strydoedd Caerdydd fel merch."

"Dydw i ddim yn hoffi pan fydda i'n clywed synau rhyfedd yn y tŷ am fy mod i'n gwybod bod pobl ddrwg yn casglu y tu allan weithiau ac rwy'n ofni y byddan nhw wedi dod i mewn."





| Dywedoch chi: | Byddwn yn gwneud y canlynol: |
| --- | --- |
| **1** Rydych wedi dweud nad ydych chi bob amser yn teimlo'n ddiogel yn eich cymuned. Rydych chi'n poeni am bethau fel **trais**,[4] **diogelwch ar-lein**,[5,6] **defnydd o gyffuriau** ac **alcohol**, **troseddau cyllyll**, **cam-drin rhywiol**[7,8] a **cham-fanteisio**, **aflonyddu**,[9] **ymddygiad gwrthgymdeithasol** (gan gynnwys defnydd peryglus o sgwteri a beiciau trydan) a **lladrata**. | Gwella gweithgareddau addysgol, adnoddau a dulliau gweithredu i'ch helpu i ddeall risgiau fel trais, diogelwch ar-lein, trais yn erbyn menywod a merched, cyffuriau ac alcohol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a lladrata. Byddwn yn sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu profiadau gwahanol yn seiliedig ar bethau fel rhywedd, rhywioldeb, hil, crefydd ac anabledd, gan gynnwys ymgysylltu'n benodol â dynion ifanc a bechgyn. |
| **2** Gall y modd y caiff **mannau cyhoeddus** eu dylunio (gan gynnwys goleuadau) wneud i lefydd deimlo'n llai diogel.[10,11] | Gweithio gyda sefydliadau, fel yr heddlu a'r cyngor, i sicrhau bod eich syniadau'n cael eu clywed wrth gynllunio gwasanaethau newydd neu ddylunio mannau cyhoeddus. |
| **3** Rydych chi'n sylwi ar risgiau mewn mannau pob dydd y gall oedolion ystyried eu bod yn normal. | Cefnogi prosiectau lle mae pobl ifanc yn arwain gwiriadau diogelwch yn eu cymunedau, fel y gallwch nodi'r hyn sydd angen ei newid, a gallwn helpu i ddatrys hynny. |
| **4** Pan fydd llawer o heddlu yn troi i fyny neu'n cario arfau, gall fod yn frawychus iawn – hyd yn oed os ydyn nhw yno i helpu. | Sicrhau bod eich adborth am ymatebion yr heddlu yn cael eu clywed pan wneir penderfyniadau ynghylch sut y caiff negeseuon diogelwch eu rhannu, a phan gaiff cynlluniau diogelwch eu rhoi ar waith. |

# Blaenoriaeth 2:

## Hyrwyddo presenoldeb cadarnhaol gan yr heddlu

Mae gweld swyddogion yr heddlu yn amlach yn bwysig, ond hefyd o ran sut a ble maent yn bresennol.

"Dylai'r heddlu ddod i mewn i ysgolion yn amlach, nid dim ond pan fydd trosedd wedi digwydd, er mwyn meithrin ymddiriedaeth a dangos eu bod yn gofalu amdanon ni."




"Mae [swyddog] yn dod i'r [clwb ieuenctid] eithaf tipyn ac mae'n dda achos rydyn ni'n ei hadnabod erbyn hyn. Byddwn i'n dweud wrthi pe byddwn i mewn trwbwl."



"Nid yw'r swyddogion sydd wedi siarad â fi ar y stryd bob amser wedi bod â'r agwedd gywir, ond mae [swyddog] yn cŵl – roedd yn siarad â ni ar ein lefel ni a dangosodd y bydden ni'n gallu gwneud ei swydd ef pe bydden ni eisiau."





| | Dywedoch chi: | Byddwn yn gwneud y canlynol: |
|---|---|---|
| 1 | **Mae gweld ac adnabod eich swyddogion heddlu lleol** yn bwysig i chi, yn enwedig mewn mannau cyhoeddus er mwyn helpu i gadw cymunedau'n ddiogel ac yn dawel, ymweld ag ysgolion ac ymuno mewn gweithgareddau cymunedol.[12] | Adolygu'r modd y bydd yr heddlu'n gweithio gydag ysgolion a gweld sut y gellid gwella hynny yn seiliedig ar yr hyn a ddywedoch chi. Cefnogi cyfleoedd i'r heddlu gymryd rhan fwy amlwg mewn cymunedau a dangynrychiolir, gan weithio'n agos gydag arweinwyr lleol i feithrin cydberthnasau cryf. |
| 2 | Rydych am i'r heddlu fod yno **pan a lle rydych chi'n teimlo'n anniogel**, fel gyda'r nos, neu mewn ardaloedd lle ceir lefelau uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol. | Gwrando ar eich profiadau a ble rydych chi'n teimlo'n anniogel wrth weithio gyda'r heddlu i wneud penderfyniadau ar weithgarwch plismona ac ymgysylltu. |
| 3 | Bydd rhai ohonoch chi'n teimlo'n fwy diogel pan fydd yr heddlu gerllaw, ond bydd hynny'n peri straen neu ofid i eraill. Dyna pam mae'n bwysig i'r heddlu fod yn garedig, dangos dealltwriaeth a chanolbwyntio ar feithrin ymddiriedaeth.[13] | Gweithio gydag eraill, fel gwasanaethau ieuenctid ac ysgolion, i greu mannau diogel ac anffurfiol i chi ryngweithio â'r heddlu a modelau rôl cymunedol eraill. |

## Blaenoriaeth 3:


# Meithrin ymddiriedaeth a gwella cyfathrebu

Rydych am deimlo eich bod yn cael eich clywed, eich parchu a’ch bod yn ymddiried yn y sawl sy’n gweithio i’ch cadw chi’n ddiogel.

“Mae’n teimlo fel cylch o beidio cael neb yn siarad â fi. I ddechrau doedd fy rhieni ddim yn siarad â fi nac yn gwrando arna i. Yna doedd yr heddlu ddim yn siarad â fi nac yn gwrando arna i.”

“Dylai’r heddlu gyfathrebu’n agored am eu polisïau, eu gweithredoedd a’u hymchwiliadau camymddwyn. Gall rhannu’n gyhoeddus sut maen nhw’n mynd i’r afael â chwynion neu hyfforddiant swyddogion ddangos i bobl ifanc bod yr heddlu yn ymroddedig i rferion teg a thryloywder.”

“Byddwn i’n rhy ofnus i ffonio’r heddlu pe byddwn i mewn trwbwl.”



“Siaradwch â ni. A dywedwch wrthon ni beth rydych chi’n ei wneud er mwyn gwella pethau. Does neb yn berffaith, hyd yn oed yr heddlu. Ond mae dangos eich bod chi’n gwneud rhywbeth er mwyn gwella pethau yn ein helpu i ymddiried ynoch chi.”

| | Dywedoch chi: | Byddwn yn gwneud y canlynol: |
|---|---|---|
| 1 | Rydych chi am gael **prosesau cyfathrebu syml, clir ac amserol** sy’n rhoi sicrwydd gan yr heddlu ac oedolion eraill. Mae rhai ohonoch chi wedi dweud wrthym am brofiadau cadarnhaol a gawsoch â’r heddlu, ond mae eraill yn teimlo eu bod wedi cael eu hanwybyddu, eu barnu neu eu bod wedi drysu ynghylch yr hyn oedd yn digwydd. | Gwella hyfforddiant a chefnogi’r heddlu i ddeall sut i siarad â chi a gwrando arnoch chi’n briodol. |
| 2 | Rydych chi am **gael eich trin â pharch a gofal** gan yr heddlu ac oedolion eraill mewn rolau yr ymddiriedir ynddyn nhw, fel pan fyddan nhw’n mynd â chi i’r ddalfa, ac wrth stopio a chwilio.[14] | Adolygu prosesau cyfredol sy’n llywio’r modd y mae’r heddlu’n rhyngweithio â chi, yn enwedig mewn sefyllfaoedd fel stopio a chwilio, yn y ddalfa ac mewn prosesau diogelu. |
| 3 | Rydych chi am sicrhau bod eich lleisiau’n cael eu clywed – yn y system cyfiawnder, mewn penderfyniadau ynghylch diogelwch cymunedol, a phan fydd gwasanaethau neu gyllid yn cael eu cynllunio.[15] | Adeiladu ar brosiectau fel Lleisiau Ifanc a Gwirfoddolwyr Ifanc yr Heddlu, fel y gallwch lywio ein rhaglen graffu a’n cynlluniau gweithredu. |
| 4 | Rydych chi am sicrhau bod gwiriadau’n cael eu cynnal ar yr heddlu, i sicrhau eu bod yn gweithredu’n briodol. | Sefydlu Panel Heddlu a Throseddu i Blant a Phobl Ifanc fel bod eich syniadau a’ch barn yn helpu i lywio newid gwirioneddol. |

# Blaenoriaeth 4:

## Gwella prosesau i roi gwybod am droseddau a ffyrdd o roi adborth

Rydych am gael eich cymryd yn ddifrifol a chael y wybodaeth ddiweddaraf.

"Dydych chi byth yn clywed bod rhywbeth wedi cael ei wneud am y pethau y rhoddwyd gwybod amdanyn nhw."







"Mwy o wybodaeth am roi gwybod am droseddau, mwy o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr."



| Dywedoch chi: | Byddwn yn gwneud y canlynol: |
|---|---|
| 1. Weithiau, pan fyddwch chi'n dweud rhywbeth wrth yr heddlu, mae'n teimlo nad ydyn nhw'n ei gymryd o ddifrif neu dydyn nhw ddim yn dweud beth fydd yn digwydd nesaf. Rydych chi am **gael y wybodaeth ddiweddaraf**, hyd yn oed os nad oes unrhyw beth newydd i'w nodi, neu os na ellir cymryd camau pellach. | Cynnig cyfleoedd i chi gymryd rhan mewn ffyrdd creadigol i roi gwybod am bethau a chael y wybodaeth ddiweddaraf. |
| 2. Mae rhai ohonoch chi'n meddwl mai dim ond ar gyfer sefyllfaoedd brys eithafol y mae'r heddlu'n bodoli, ac nid ar gyfer sefyllfaoedd sy'n peri pryder ond nad ydynt yn beryglus ar unwaith. | Rhannu gwybodaeth glir wedi'i datblygu'n benodol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n ymwneud â'r cymorth y gall yr heddlu ei gynnig a sut y gallwch gael gafael arno (e.e., hyrwyddo 101 a rhoi gwybod am droseddau ar-lein, a Crimestoppers). |
| 3. Os ydych chi wedi bod yn rhan o weithgarwch troseddol o ganlyniad i gam-fanteisio neu gamdriniaeth, mae angen i chi ymddiried y bydd oedolion yn deall hyn pan fyddwch chi'n gwneud adroddiad, ac y byddan nhw'n eich cadw'n **ddiogel rhag rhagor o niwed**. | Gweithio gydag asiantaethau Cyfiawnder Ieuenctid, asiantaethau cyfiawnder troseddol a phartneriaid eraill i sicrhau eich bod yn teimlo'n ddiogel yn rhoi gwybod am bethau, er mwyn eich amddiffyn rhag cael eich brifo eto a, lle y bo'n bosibl, lleihau eich cyswllt â'r system cyfiawnder troseddol. |
| 4. Gall straeon am blismona neu'r system gyfiawnder mewn mannau eraill ei gwneud yn anoddach i chi deimlo'n hyderus am roi gwybod am drosedd. | Rhannu canlyniadau cadarnhaol a straeon newyddion da gan ddefnyddio'r llwyfannau, gan gynnwys rhai ar-lein, rydych chi'n eu defnyddio fwyaf, fel y gallwch weld yr hyn y mae'r heddlu'n ei wneud i'ch cadw chi a'ch cymunedau'n ddiogel. |

# Blaenoriaeth 5:

## Addysg, ymyrryd yn gynnar ac atal

Rydych am weld prosesau ymgysylltu a gweithgarwch ystyrlon sy'n atal newid ac yn dargyfeirio pobl ifanc sy'n agored i niwed oddi wrth y system cyfiawnder troseddol.

"Mae llawer o bethau yn digwydd yn rhy hwyr. Mae angen i'r gwaith ddechrau pan fydd plant yn 3 neu 4."







"Edrychwch ar yr arwyddion rhybudd – mae rhai ohonom yn ysu am gael help, yn mynd ar goll a gall ymddangos fel pe bai'n cael ei dderbyn yn anochel y byddwn mewn lle gwael yn y pen draw."






| | Dywedoch chi: | Byddwn yn gwneud y canlynol: |
|---|---|---|
| 1 | Rydych am i'r heddlu wneud mwy mewn **ysgolion** ac ymgysylltu â phlant o oedran ifanc, i'w helpu i ddeall sut y gallai eu gweithredoedd effeithio arnyn nhw ac ar eraill, sut i gadw'n ddiogel yn seiliedig ar risgiau presennol, sut i feithrin cydberthnasau iach ac i ddysgu mwy am yr hyn y mae'r heddlu'n ei wneud. | Nodi a chynnig cyfleoedd i ysgolion weithio gyda'r heddlu, gweithwyr ieuenctid a gwasanaethau cymorth eraill i roi gwybodaeth am faterion sy'n bwysig i blant, i gefnogi eu diogelwch, i feithrin cydberthnasau iach ac i gynnig help cynnar mewn modd caredig a deallgar (sy'n ystyriol o drawma). |
| 2 | Mae'n bwysig bod oedolion sy'n dod i'r ysgolion, y colegau a'r cymunedau yn deall sut mae bywyd go *iawn* i bobl ifanc a'ch cymuned. | Cynnig ffyrdd i chi weithio gyda gweithwyr proffesiynol fel athrawon, yr heddlu a gweithwyr proffesiynol i lywio gweithgarwch ymgysylltu yn y dyfodol mewn ysgolion, lleoliadau ieuenctid a chymunedau. |
| 3 | Rydych am gael gwybodaeth glir a chlywed lleisiau go iawn i helpu i wrthsefyll **dylanwad niweidiol y cyfryngau a mannau ar-lein**. Rydych am gael eich cefnogi i ymdopi â chynnwys sy'n clodfori troseddau, sy'n hyrwyddo casineb, trais a safbwyntiau eithafol a chynnwys sy'n amharu ar ymddiriedaeth yn y sawl ddylai fod yn oedolion y gellir ymddiried ynddyn nhw, gan gynnwys yr heddlu.[16] | Cynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu rhaglen i helpu pobl ifanc i gadw'n ddiogel ar-lein a nodi gwybodaeth gamarweiniol. Gwneir hyn gydag ysgolion ac arbenigwyr fel rhan o'n cynllun hirdymor i'ch diogelu rhag niwed ar-lein.<br><br>Sicrhau bod y cynnwys a gaiff ei gyfathrebu gennym yn glir, yn berthnasol ac yn briodol o ran oedran. |
| 4 | Rydych am weld mwy yn cael ei wneud i **atal plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn troseddau yn gynharach**, a sicrhau bod mwy o gefnogaeth ar waith i atal pobl ifanc rhag cyflawni rhagor o droseddau.[17] | Parhau i gefnogi prosiectau a gwasanaethau sy'n helpu plant a phobl ifanc i gadw draw o drosedd a'u hatal rhag bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Byddwn yn sicrhau bod adborth gan bobl ifanc yn cael ei glywed pan gaiff prosiectau a gwasanaethau newydd eu cynllunio. |

# Blaenoriaeth 6:

## Rhoi cymorth i blant a phobl ifanc sydd mewn sefyllfaoedd bregus

Rydych am i'r cymorth cywir gael ei roi ar yr adeg gywir.

"Gwasanaethau i blant pan fyddant wedi gweld pethau drwg neu pan fydd pethau drwg yn digwydd yn y cartref. Cefnogi mewn grwpiau hefyd oherwydd yna gallwch wneud ffrindiau gyda phlant eraill sydd wedi bod drwy bethau tebyg i chi, ac mae'n eich helpu i deimlo fel nad ydych ar eich pen eich hun."









"Roedd ofn arna i, roeddwn yn teimlo'n drist a doeddwn i ddim yn gwybod beth fyddai'n digwydd neu pa mor hir fyddwn i ar fy mhen fy hun."



| Dywedoch chi: | Byddwn yn gwneud y canlynol: |
|---|---|
| 1. **Rydych am sicrhau bod help ar gael** pan fyddwch wedi gweld neu brofi rhywbeth sy'n codi ofn neu'n achosi gofid, fel rhiant yn cael ei arestio pan fyddwch gartref, yn enwedig cymorth ar gyfer eich iechyd meddwl. | Gweithio gydag eraill i gael gwybod pa gymorth sy'n bodoli eisoes i blant a phobl ifanc a lle mae angen rhagor o gymorth. |
| 2. Rydych yn credu y dylai oedolion wneud yn siwr eich bod yn teimlo'n ddiogel, eich bod yn cael cefnogaeth a bod eich hawliau'n cael eu parchu, yn enwedig pan fydd rhywbeth mawr wedi digwydd neu pan fyddwch yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol eich hun.[12] | Sicrhau bod Hyrwyddwr yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n codi llais dros eich hawliau ac yn gweithio gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol, cyfiawnder ieuenctid a phartneriaid eraill. |
| 3. Rydych chi'n meddwl bod angen gwneud mwy i gynnig **mannau diogel** e.e., mwy o fannau cyhoeddus diogel a chanolfannau ieuenctid, buddsoddi mewn cymorth sy'n **mynd i'r afael â phethau a all arwain at ymddygiadau niweidiol**. | Gweithio gydag eraill i sicrhau bod mannau y gallwch fynd iddyn nhw i deimlo'n ddiogel, eich bod yn cael eich cefnogi a bod rhywun yn gwrando arnoch. |
| | Adolygu'r modd y mae'r heddlu yn siarad â phlant ac yn eu cefnogi, gan gynnwys y defnydd o iaith, beth maen nhw'n ei ofyn i chi a phryd. |
| 4. Rydych chi'n meddwl bod **cyfleoedd wedi'u colli**: nad yw'r "cwestiynau cywir" bob amser yn cael eu gofyn ar yr adeg gywir, neu nad yw pobl ifanc yn cael eu hatgyfeirio at wasanaeth a allai fod wedi gwahaniaeth gwirioneddol a'u hatal rhag gwneud rhagor o niwed.[18] | Gweithio gyda'r heddlu a phartneriaid i sicrhau eich bod yn cael eich cysylltu â gwasanaethau a all eich helpu cyn i bethau fynd yn anoddach. |




# Cymorth a Chyngor

Rydych wedi dweud wrthym fod sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod ble i fynd i gael cymorth yn bwysig.

Mae llawer o wasanaethau sy'n cefnogi pobl ifanc ac yn gweithio gyda nhw, ond os ydych yn poeni neu os oes angen i chi siarad â rhywun, mae rhai pobl y gallwch gysylltu â nhw:

## Heddlu De Cymru

Mewn argyfwng, ffoniwch **999**.

Ar gyfer rhywbeth nad yw'n argyfwng, gallwch ffonio 101 neu roi gwybod ar-lein – www.south-wales.police.uk/cy-GB/riportio/riportio/ocr/af/riportio-trosedd

## Childline

Gwasanaeth 24 awr y dydd i blant a phobl ifanc yn y DU yw Childline. Caiff ei redeg gan yr NSPCC.

0800 1111 neu negeseuon ar-lein – www.childline.org.uk/get-support/1-2-1-counsellor-chat

## Fearless (Rhan o Crimestoppers)

Mae Fearless yn galluogi pobl ifanc i drosglwyddo gwybodaeth am droseddau yn gwbl ddienw.

0800 555 111 | www.crimestoppers-uk.org/fearless/give-information-anonymously

# Diolch

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi ein cefnogi wrth lunio’r cynllun hwn o’r dechrau i’r diwedd.

Heb eich cymorth anhygoel, ni fyddai wedi bod yn bosibl i ni lunio cynllun sydd wir yn adlewyrchu lleisiau a phrofiadau plant a phobl ifanc ledled De Cymru.

Hoffwn ddiolch yn bersonol i’r holl leoliadau addysgol a grwpiau ieuenctid a gefnogodd pobl ifanc i gwblhau ein harolwg, ynghyd â’r ysgolion a’r sefydliadau canlynol a aeth ati i hwyluso sgyrsiau â phobl ifanc ar ein rhan:



- Ysgol Gynradd Abbey
- Adran Pobl Ifanc Egnïol (AYPD)
- Clwb Pêl-droed Abercynon
- Barnardos
- Bulldogs Boxing and Community Activities
- Pafiliwn Butetown
- Prifysgol Caerdydd
- Canolfan Gymunedol Cathays
- Ysgol Babanod Cefn Glas
- Ysgol Gynradd Danescourt
- Prosiect EE
- Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) Cymru
- Fearless
- Clwb Ieuenctid Glynrhedynog
- Ysgol Uwchradd Fitzalan
- Ysgol Gynradd Glan-yr-Afon
- Ysgol Heronsbridge
- Cartref Plant Diogel Hillside
- EF Caerdydd ac EF Abertawe
- Carchar EF y Parc – Uned Plant
- Hope Girls Collective
- Media Academy Cymru
- Mums and Toddlers Foundation
- New Pathways
- Peer Action Collective (PAC)
- Grŵp Gweithredu Ieuenctid Penarth
- Ysgol Gyfun Pencoed
- Ysgol Gynradd y Pîl
- Ysgol Gyfun Porthcawl
- Safer Merthyr Tydfil
- Seren y Dyfodol
- Ysgol Gynradd St Albans
- Ysgol Gynradd Gatholig St John Lloyd
- Ymddiriedolaeth Elusennol Stephens a George
- Sgowtiaid Tonypandy
- Vibe Youth CIC
- Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
- Cyngor Ysgol Whitmore
- Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (YEPS)
- Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid
- Your Voice Matters (YoVo)
- Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd
- Ysgol Gymraeg Nant Caerau

Yr holl blant a phobl ifanc a gymerodd ran yn ein harolygon, grwpiau ffocws a sesiynau ac i bawb arall sydd wedi ein cefnogi i ddatblygu Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder cyntaf De Cymru i Blant a Phobl Ifanc.

# Cyfeiriadau


1. Fframwaith Arferion Gorau Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn Cygnor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

2. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Medi 1990

3. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

4. Y Gronfa Gwaddol Ieuenctid (2024). *Children, Violence, and Vulnerability: Who is Affected by Violence?* Tachwedd 2024.

5. NSPCC. *'Online harms and abuse: statistics briefing'*, Hydref 2024;

6. *Violence against women and girls in schools and among children and young people*, 2025; POSTnote Senedd y DU

7. Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru a Lloegr, Hydref 2022; *Child sexual abuse in 2023/24: Trends in official data* Y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol

8. Ceccato a Loukaitou-Sideris (2022). *Fear of Sexual Harassment and Its Impact on Safety Perceptions in Transit Environments: A Global Perspective*. Violence Against Women 28(1)

9. *Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon – profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru*, 2021; Estyn; *Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16 i 18 oed mewn colegau addysg bellach*, 2023; Estyn

10. Welsh et al. (2022). *The Impact and Policy Relevance of Street Lighting for Crime Prevention: A Systematic Review based on a Half-Century of Evaluation Research*. Criminology & Public Policy 21(3)

11. Navarrete-Hernandez et al. (2023). *Planning for Fear of Crime Reduction: Assessing the Impact of Public Space Regeneration on Safety Perceptions in Deprived Neighbourhoods*. Landscape and Urban Planning 237

12. The Police Foundation (2020). *Policing and the Public: Understanding Public Priorities, Attitudes, and Expectations*

13. Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma, 2022, *Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru*

14. Y Gronfa Gwaddol Ieuenctid (2024). *Children, Violence, and Vulnerability: What Do Children and Young People Think about the Police?*

15. Fframwaith Cymru Heb Drais

16. HateLab (2019). *Hatred Behind the Screens: A Report on the Rise of Online Hate Speech*

17. Y Gronfa Gwaddol Ieuenctid (2024). *An Evidence Review on Youth Diversion Programmes.*

18. Smith a Paddock (2024). *Exploring Children's Journeys into the Youth Justice System from Multiple Perspectives: An Interpretive Phenomenological Analysis*. Societies 14(10








"Gwnaeth miloedd ohonoch gymryd yr amser i leisio eich barn. Diolch. Eich lleisiau, eich pryderon a'ch gobeithion yw sail y cynllun hwn."

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

South Wales Police and Crime Commissioner

**www.comisiynydddecymru.org.uk**


Neu cysylltwch â ni drwy:

01656 869 366

comisiynydd@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Ty Morgannwg, Pen-y-Bont ar Ogwr CF31 3SU


Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.





